# Ymateb Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru i: Cynnig i ddod â gwerthiant diodydd egni i blant o dan 16 oed i ben

Yn cau 01 Medi 2022

Ymateb a gyflwynwyd drwy'r arolwg ar-lein.

**Cwestiynau**

**C.1 A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i wahardd gwerthu diodydd egni i blant o dan 16 oed?**

• Ydw

**C.2 A ddylid ehangu'r gwaharddiad i ystyried diodydd eraill sydd fel arfer yn uchel mewn caffein, fel te a choffi?**

• Na ddylid

**Esboniwch**

Cyn belled â nad oes lefelau uchel o gaffein ynddynt. Byddai'n fwy anodd plismona te a choffi gan eu bod ar gael ar bron bob aelwyd. Fodd bynnag, dylai fod mwy o addysg ynglŷn â'r risgiau sy'n gysylltiedig â chael gormod o gaffein.

**C.3 A ydych chi'n cytuno y dylai'r gwaharddiad fod yn berthnasol i bob siop, gan gynnwys amgylcheddau gwerthu ar-lein?**

• Ydw

**Esboniwch**

Dylai gynnwys caffis ac ardaloedd eraill yn ogystal â siopau ac amgylcheddau ar-lein.

**C.4 Os yw plant yn cael eu hatal rhag prynu diodydd egni o beiriannau gwerthu, sut y dylid gwneud hyn?**

**Esboniwch**

Dylid eu tynnu o beiriannau gwerthu, yn union fel nad yw alcohol ar gael ynddynt.

**C.5 A ydych chi o'r farn y gallai'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon gael effaith ar y canlynol?**

- **Y rheini sy'n byw mewn ardaloedd gwledig**
- **Grwpiau economaidd-gymdeithasol penodol**
- **Plant a phobl ifanc**
- **Cydraddoldeb mewn perthynas â;− Oed; − Rhyw; − Hil; − Crefydd; − Cyfeiriadedd rhywiol; − Beichiogrwydd a mamolaeth; − Anabledd; − Ailbennu rhywedd; − Priodas / partneriaeth sifil**

**Os ydych, pa rai ac esboniwch**

Ydw, plant a phobl ifanc a fydd ddim yn cael mynediad at y diodydd, fodd bynnag dylai'r effeithiau ar iechyd a'r agweddau o ran lefelau ymddygiad is sy'n gysylltiedig â diodydd egni uchel arwain at ganlyniadau cadarnhaol yn y pen draw, ond i'r rheiny

sydd eisoes yn gaeth iddyn nhw efallai y bydd angen cymorth ychwanegol arnynt i roi'r gorau i'w hyfed.

**C.6 Hoffem wybod eich barn ynglŷn ag effeithiau'r ymgynghoriad ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn ogystal â pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau positif, neu sut y gellid lliniaru'r effeithiau negyddol?**
Esboniwch

Dim sylwadau

**C.7 Os oes unrhyw faterion pellach yr hoffech eu codi neu unrhyw wybodaeth bellach yr hoffech ei rhannu mewn perthynas â'r ymgynghoriad hwn, rhowch fanylion yma.**
Bydd angen gorfodaeth ac ystyried cynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth fel bo modd gwneud yr addasiadau gofynnol mewn siopau a sefydliadau perthnasol.